**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**169 - Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 30 Medi 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 29 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | SICM(5)30 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Gosodwyd Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 “Rheoliadau 2020” gerbron Senedd y DU ar 30 Medi 2020 ac maent bellach wedi'u gosod gerbron Senedd Cymru.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r tri offeryn statudol Ymadael â’r UE gofal iechyd cilyddol a wnaed ar sail Cymru a Lloegr, sy'n ymwneud ag iechyd cilyddol i adlewyrchu rhai hawliau gofal iechyd yn y Cytundeb Ymadael, Cytundeb Gwahanu yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y

Swistir ac i wneud newidiadau technegol fel disodli cyfeiriadau at y diwrnod ymadael gyda chyfeiriadau at ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu:

- Rheoliadau Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Gofal Iechyd Cilyddol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Gogledd Iwerddon) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) (Ymadael â'r UE) 2019

Yn benodol, mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019"). Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006 at ddibenion trefniadau pontio sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal iechyd i drigolion Cymru am driniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw yn un o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a awdurdodwyd cyn dyddiad cwblhau'r cyfnod gweithredu

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 5 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.